Bwrdd Gweithredol Iechyd a Diogelwch HSE/10/85			
Dyddiad y Cyfarfod:	24ain Tachwedd 2010	**Statws Rhyddid Gwybodaeth:**	Hollol agored
Math o bapur:	Uwchben y llinell	**Eithriadau:**	
Cyfeirnod Trim:	2010/570562		
HSE YNG NGHYMRU - CYFLAWNI'R STRATEGAETH			

Diben y papur

1. Mae'r papur hwn yn adrodd ar weithgareddau i weithredu'r strategaeth HSE yng Nghymru, a'r cyd-destun newidiol yr ydym yn gweithredu ynddo gyda rhanddeiliaid

Cefndir

2. Trafododd y Bwrdd waith HSE yng Nghymru ddiwethaf yn ei gyfarfod yn Llundain ym mis Mai 2009. Mae'r papur hwn yn adrodd ymhellach ar waith yng Nghymru, yn arbennig i weithredu'r strategaeth ers yr adeg honno, ac yn cyd-daro â'r cyfarfod bwrdd yng Nghaerdydd.

Dadl

3. Mae newidiadau sylweddol yn debygol o ddigwydd yng Nghymru yn 2011 gyda refferendwm ar bwerau pellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac etholiadau i'r Cynulliad, yn ogystal ag effeithiau yn sgîl yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

4. Ymgysylltir â rhanddeiliaid yng Nghymru drwy gydberthnasau gwaith anffurfiol a hyblyg gyda grwpiau priodol yn cael eu ffurfio i gydweithio ar faterion cyffredin (e.e. grwpiau gorchwyl a gorffen gweinidogol neu grwpiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ati). Nid oes unrhyw 'gynllun' penodol ffurfiol na phwyllgorau 'strategaeth' ar gyfer adrodd nac ymgysylltu.

5. Mae cefnogaeth gref gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i waith HSE a pharodrwydd i gymryd rhan ac mae ymrwymiad Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan) ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru i Strategaeth HSE yn enghraifft o hyn.

Cam gweithredu

6. Gofynnir i'r Bwrdd nodi cyd-destun newidiol gwaith HSE yng Nghymru, a gweithgarwch diweddar a phresennol i gyflawni'r strategaeth (Atodiad 1).

Cliriad papur

7. Cliriwyd y papur hwn gan yr Uwch Dîm Rheoli ar 3 Tachwedd 2010.

Atodiad 1

Gweithgareddau HSE yng Nghymru - Cyflawni'r Strategaeth

Cyd-destun Cymru

GWEITHLEOEDD

1. Mae gan Gymru, yn arbennig De Cymru, hanes hir o ddiwydiant trwm a phyllau glo a gweithfeydd haearn a dur oedd y diwydiannau hynny yn bennaf. Mae tua hanner y boblogaeth (1.44m allan o 2.99m) yn byw yn Ne Cymru, sef y brif ganolfan yn y gorffennol ar gyfer y diwydiannau hyn. Mae'r gweddill yn cynnwys llawer o ardaloedd arfordirol, parciau cenedlaethol a chefn gwlad lle mae twristiaeth ac amaethyddiaeth yn bwysig. Mae'r diwydiant dur (Tata Steel sef CORUS gynt) wedi cyhoeddi'n ddiweddar fuddsoddiad newydd sylweddol i osod Ffwrnais Chwyth newydd ym Mhort Talbot. Mae mwyngloddio brig a drifftiau yn parhau ac yn dangos arwyddion o ddatblygiad newydd.

2. Mae datblygiadau yn Aberdaugleddau ac o amgylch y porthladd, sef y trydydd mwyaf yn y DU, bellach yn ymdrin â 25% o fewnforion olew tanwydd Prydain, ac mae'r gallu ganddo i ddelio â thraean o holl fewnforion LPG yn dilyn agor terfynell dŵr dwfn a dau safle storio a nwyeiddio yn 2009. Mae gorsafoedd ynni nwy (e.e. Aber-wysg) wedi cael eu hadeiladu neu wrthi'n cael eu hadeiladu yn Ne Cymru. Mae rhostiroedd uchel a phrifwyntoedd yn arwain at ddatblygiadau ffermydd gwynt helaeth. Mae'r fferm wynt ar y môr fwyaf yn cael ei hadeiladu ymhell oddi ar Arfordir Gogledd Cymru. Mae safleoedd biomas mawr a bach yn cael eu hadeiladu hefyd. Cynhelir astudiaethau dichonoldeb o gyfleusterau 'storio carbon' o dan Fae Abertawe. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ymrwymiad sylweddol i 'gynaliadwyedd' drwy gydol ei waith o wneud polisïau a'i chefnogaeth i'r datblygiadau hyn. Yn ogystal â'r datblygiadau uchod, mae atomfa Wylfa yn parhau i weithredu ac mae'n safle a nodwyd ar gyfer datblygiad pellach.

3. Un o'r safleoedd gweithgynhyrchu mwyaf ym Mhrydain yw Airbus ym Mrychdyn yng Ngogledd Cymru, lle y cynhyrchir esgyll ar gyfer awyrennau Airbus gan gynnwys yr A380 newydd.

4. Mae cyflogaeth ym meysydd gweithgynhyrchu (11.8%) ac amaethyddiaeth (2.9%) yn parhau yn uwch na Phrydain (9.1% ac 1.6% yn y drefn honno) ond mae gwasanaethau, yn enwedig cyflogaeth yn y sector cyhoeddus (27.5%) hefyd yn bwysig nawr. Mae diweithdra hirdymor yn bryder mawr mewn sawl maes ond yn enwedig yng nghymoedd De Cymru.

YSTADEGAU IECHYD A DIOGELWCH

Cyfraddau Anafiadau

5. Mae cyfraddau anafiadau yn gyson uwch yng Nghymru nag y maent ym Mhrydain yn gyffredinol (2008/9; 618 fesul 100,000 o gyflogeion o gymharu â 496) ond mae'r nifer wedi lleihau bob blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae'n bwysig cofio bod patrymau cyflogaeth yn cael effaith gref ar y cyfraddau, (Noder bod niferoedd uwch ym meysydd gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth uchod) ac mae'r gyfradd yng Nghymru yn debyg i'r un yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr lle mae hanes a phatrwm cyflogaeth tebyg.

6. Mae nifer y marwolaethau ymhlith gweithwyr yng Nghymru wedi bod yn is o lawer yn ystod y ddwy flynedd diwethaf sef 5 (08/09) a 7 (09/10) o gymharu â chyfartaledd o 15 y flwyddyn yn ystod y 4 blynedd blaenorol, sef yr isaf a fu erioed.

Salwch

7. Mae cyfraddau digwyddiadau salwch a nifer yr achosion o salwch yn is yn gyffredinol yng Nghymru na Phrydain ac maent hefyd wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r gyfradd Ddigwyddiadau o'r Arolwg o'r Llafurlu yn 2008/9 (p) yn rhoi cyfradd o 1340 (fesul 100,000 o bobl a gyflogwyd) o gymharu â Phrydain. sef 1810.

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

8. Olynodd Carwyn Jones Rhodri Morgan fel Prif Weinidog Cymru ym mis Rhagfyr 2009. Bydd etholiad ar gyfer aelodau'r cynulliad ym mis Mai 2011. Ar ddechrau mis Mawrth 2011 bydd refferendwm hefyd yng Nghymru ynghylch pwerau deddfu pellach. Dim ond yn y meysydd hynny sydd eisoes wedi eu datganoli i Gymru o dan y trefniadau presennol y bydd y pwerau hyn ac felly ni fyddant yn cynnwys deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Fodd bynnag, oherwydd yr ystod eang o feysydd lle y gellid cael pwerau pellach (e.e. Iechyd, Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd ac Addysg) bydd hyn yn effeithio ar fuddiannau HSE. Enghraifft ddiweddar o hyn oedd ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â chasglu a gwaredu gwastraff domestig.

9. Bydd yn bwysig adnewyddu ac adeiladu ar gydberthnasau da presennol â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn yr etholiad ac wrth i unrhyw bwerau newydd gael eu troi yn gamau gweithredu. Mae meithrin a chynnal cysylltiadau cryfach yn enwedig ar faterion polisi sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr yn arbennig o bwysig.

10. Ers mis Chwefror 2010, mae secondai o Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn gweithio yn HSE a'i rôl yw helpu staff HSE yng Nghymru ac is-adrannau polisi i ddeall trefniadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn well, a hwyluso cysylltiadau rhyngom er mwyn cael rhybudd cynnar o faterion sydd o ddiddordeb a dylanwad i'r ddwy ochr. Un cyflawniad pwysig yn ddiweddar oedd meithrin cysylltiadau ag Uned Polisi Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a chynnwys HSE fel ymgynghorai yng nghanllawiau datblygu Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae HSE Cymru hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal digwyddiadau hyfforddi ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynghorwyr polisi, a hysbysu staff y Cynulliad yn fwy cyson am fuddiannau HSE.

11. Yn ddiweddar ymunodd HSE Cymru â Fforwm Rheoleiddwyr Cymru newydd. Mae hyn yn dwyn ynghyd reoleiddwyr Prydain a Chymru yn unig ac yn datblygu rhaglen waith ar y cyd i arwain, annog a chefnogi datblygu economaidd yng Nghymru a diogelu'n briodol yr holl ddinasyddion (e.e. defnyddwyr gwasanaethau, defnyddwyr, cyflogeion).

GWEITHGAREDDAU SY'N CYFLAWNI'R STRATEGAETH

Creu Gweithleoedd Iachach a Diogelach

12. Mae rhaglenni HSE cytûn Prydain yn dylanwadu'n fawr iawn ar weithgareddau HSE yng Nghymru. Mae'r paragraffau isod yn disgrifio sut yr addesir rhai o'r rhaglenni hyn i'w cyflawni yng Nghymru, gan gynnwys rhanddeiliaid yng Nghymru, fel ein bod yn cael yr effaith fwyaf ar y cyd.

Gweithio gydag Awdurdodau Lleol

13. Cyfrannodd Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau Maes (FOD) Cymru, gyda chymorth yr Uned Awdurdod Lleol, dystiolaeth i waith y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (LBRO) i ddatblygu blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae hyn wedi golygu sicrhau bod salwch ac anafiadau sy'n gysylltiedig â gwaith yn cael eu cynnwys yn benodol o dan y flaenoriaeth ar gyfer awdurdodau lleol o 'ddiogelu unigolion rhag niwed a hybu gwelliant o ran iechyd'.

14. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth drwy gydgynllunio â FOD a llunio cynllun ymyrraeth. Seiliwyd yr ymagwedd hon ar wasanaethau yn y gorffennol (e.e. gosodwyr erialau a lloerenni) ac mae wedi parhau gyda'r prosiect 'Take Away' (sy'n mynd i'r afael ag achosion o lithro a baglu a dermatitis ym maes arlwyo), a phrosiect 'Cartrefi Gofal' - 339 o ymweliadau yn arwain at 56 o Hysbysiadau Gwella yn bennaf o ran rheoli Legionella a dyletswydd i reoli asbestos. Eleni bydd rhaglen dwy flynedd yn dechrau a fydd yn mynd i'r afael â thrais ac ymddygiad ymosodol yn y gweithle ar safleoedd a orfodir gan awdurdodau lleol (tafarndai, clybiau, siopau betio, siopau lleol). Bydd y prosiect yn defnyddio pecyn cymorth HSE i wrthsefyll trais, gyda CSAG yn cefnogi'r gwerthusiad, a staff FOD Cymru o'r Tîm Partneriaeth yn cefnogi'r gwaith o gynllunio a briffio swyddfeydd awdurdodau lleol. Bydd y prosiect hefyd yn creu cydberthnasau agosach â Swyddogion Cyswllt yr Heddlu.

15. Mae pob awdurdod lleol yn cynnal ymweliadau LPG ac yn parhau â'r ymgyrch i godi safonau mewn perthynas â rheoli asbestos. (dyletswydd i reoli a materion trwyddedu).

16. Mae pob awdurdod lleol ar y trywydd iawn i gydymffurfio â safonau adran 18 erbyn diwedd mis Mawrth 2011. Cymerodd awdurdodau lleol De-ddwyrain Cymru ran yn y cynllun peilot. Mae awdurdodau lleol Cymru yn wynebu toriadau mewn gwariant ac yn edrych yn feirniadol ar yr holl weithgarwch nad yw'n orfodol/dewisol wrth i ni flaengynllunio gyda hwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Amaethyddiaeth

17. Mae Sioe Frenhinol Cymru yn parhau i ddarparu pwynt cyswllt pwysig gyda rhanddeiliaid, a chyda'r gymuned ffermio yng Nghymru, ac roedd gan lawer o ffermwyr a'u teuluoedd ddiddordeb yn yr ymgyrch 'Gwnewch yr Addewid' neu roeddent wedi ymrwymo iddi. Gwnaeth HSE noddi gwobr hefyd yng Nghystadleuaeth Cneifio Defaid y Byd a gynhaliwyd yn ystod y Sioe. Roedd y Sioe yn gyfle hefyd i Sandy Blair a Sector HSE gwrdd â chynrychiolwyr o Cyswllt Ffermio a Hybu Cig Cymru, yr oeddent ill dau yn awyddus i ganfod ffyrdd o gyfrannu at yr Ymgyrch a'i sefydlu, a hyrwyddo gwelliant o ran iechyd a diogelwch. Yn dilyn hyn penododd Cyswllt Ffermio ei rheolwr rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru fel ei chyswllt arweiniol, a bydd y Sector yn datblygu cynllun ffurfiol.

18. Cynhaliwyd Diwrnodau Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch ac Iechyd (SHADs) yn 2010 ar Faes y Sioe yn Llanfair-ym-Muallt, ac yn y Farchnad Da Byw yn y Trallwng. Mynychwyd y ddau ddigwyddiad gan 513 o ffermwyr. Mae Swyddogion Ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch yn yr Is-adran yn cynnal ymweliadau dilynol yn ogystal ag ymweliadau fferm lle mae angen rheolaethau o ran e-coli.

19. Gwnaed cysylltiadau ag Adran Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru a bwriedir cynnal rhai ymweliadau ar y cyd yn cynnwys arolygwyr gwledig lleol a Swyddogion Ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch i godi ymwybyddiaeth o waith ei gilydd, a hybu llif gwybodaeth rhwng y sefydliadau.

Chwarelu

20. Mae'r diwydiant llechi yng Ngogledd-orllewin Cymru yn cyflogi dros 300 o bobl ac yn rhagweld dyfodol cynaliadwy. Mae HSE wedi sefydlu cysylltiadau â Chymdeithas Chwareli Llechi Cymru (WSQA) i weithio gyda hwy i nodi blaenoriaethau, dangos gwelliannau a datblygu arfer gorau'r diwydiant (lle bo angen). Pwnc eleni yw 'Echdynnu drwy lifio gwifrog'.

Adeiladu

21. Mae'r is-adran adeiladu yng Nghymu yn dilyn rhaglen waith Prydain gyda blaenoriaethau o ran asbestos, adnewyddu a safleoedd bach. Mae arolygu prosiectau adnewyddu mewn ardaloedd i fyfyrwyr yn ystod misoedd yr haf wedi canfod lefel isel o gydymffurfio. Mae rhai ymchwiliadau o bwys o ran asbestos yn mynd rhagddynt gydag ACau neu ASau yn dangos diddordeb. Gorsafoedd ynni mawr yw'r gweithgarwch pwysicaf o ran gwaith adeiladu newydd.

22. Mae Partneriaethau Gweithio'n Dda Gyda'n Gilydd Gogledd a De Cymru yn weithgar iawn ac yn trefnu digwyddiadau a hyfforddiant ar ymwybyddiaeth i filoedd lawer o weithwyr adeiladu drwy Ddiwrnodau Ymwybyddiaeth Diogelwch ac Iechyd, diwrnodau Ymwybyddiaeth Dylunwyr, seminarau coleg a theithiau'r fan wen.

Gofal Iechyd

23. Mae iechyd yn fater datganoledig a rhaid datblygu dulliau gweithredu canolog yng Nghymru a'u cynnal ar wahân ac mewn ffordd wahanol i Loegr. Mae staff sector HSE a staff gweithrediadau yn llwyr gydnabod y gwahaniaethau yn y modd y maent yn mynd ati i weithio. Bu newid trefniannol mawr yn strwythurau GIG Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sydd wedi llunio nifer lai o Fyrddau Iechyd i ddarparu gwasanaethau ledled Cymru, oll yn atebol i'r Gweinidog drwy sefydliad canolog - GIG Cymru. Cyflogeion y Byrddau Iechyd unigol ac nid GIG Cymru yw staff y GIG yng Nghymru. Mae dulliau gweithredu newydd ar waith (gweler isod o dan arweinyddiaeth) gyda'r sefydliad newydd.

24. Mae rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â Thrais ac Ymddygiad Ymosodol o fewn GIG Cymru wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ers blynyddoedd lawer ac mae HSE wedi cyfrannu at Dasgluoedd Gweinidogol ac at y gwaith o sefydlu 'pasbortau' hyfforddi. Yn 2010 cynhaliodd HSE Cymru archwiliadau o bob Bwrdd yng Nghymru, gan gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i'r Byrddau, i GIG Cymru ac i'w cynghorydd arweiniol. Gwnaed argymhellion pellach, ond nid oedd angen cymryd camau gorfodi oherwydd y gwelliannau a welwyd.

25. Mae staff Sector HSE wedi cyfrannu at y gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynhyrchu safonau cenedlaethol gofynnol ar ffurf ddrafft ar gyfer Gwasanaethau Cyfarpar Cymunedol i sicrhau darpariaeth ddiogel ac effeithiol. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 6 Awst 2010. Mae HSE Cymru wedi cyfrannu at ganllawiau newydd ar Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed yng Nghymru. Mae angen diweddaru gwaith gyda rheoleiddwyr gofal iechyd eraill yng Nghymru (AGGCC a AGIC) a'i ddatblygu ymhellach ac mae HSE Cymru yn gweithio gyda'r Sector i sicrhau rhywfaint o gysoneb yn y rôl ar gyfer HSE ledled Prydain.

26. Mae Cyfarwyddwr HSE yng Nghymru yn rhan o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol sy'n gweithio ar ddarparu gwell Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol yn y GIG i staff ond hefyd i'r gymuned ehangach.

Osgoi Trychineb

27. Mae HSE yng Nghymru yn parhau i weithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru mewn perthynas â gweithgaredd COMAH a datblygiadau newydd o amgylch Aberdaugleddau, a gyda Chyngor Sir Penfro ac awdurdodau lleol eraill sydd â chyfrifoldebau am gynllunio at argyfwng. Ar ddiwedd 2009 derbyniodd Cyngor Sir Penfro gais cynllunio ar gyfer fferm wynt yn agos iawn at ddau safle haen uwch COMAH a phiblinell fawr. Nid oedd HSE yn ymgynghorai statudol ond gofynnwyd iddo am gyngor, ac o ganlyniad trefnwyd adolygiad annibynnol gan gymheiriaid o'r risgiau lleoli gyda phartïon eraill. Roedd hon yn enghraifft dda o'r cyrff rheoleiddio, yr awdurdod cynllunio, y datblygwr ac ymgynghorwyr yn delio â gweithgareddau yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy a pheryglon mawr.

28. Ym mis Mai 2009 digwyddodd damwain fawr adroddadwy yn yr UE pan ymddangosodd crac mewn peipen ddisgyn neu 'downcomer' ffwrnais chwyth mewn gwaith dur a rhyddhawyd cryn dipyn o nwy fflamadwy a gwenwynig. Byddai cau'r ffwrnais wedi cael effaith economaidd ddifrifol iawn. Nododd Arolygwyr Cyfarwyddiaeth Gosodiadau Peryglus (HID) fethiannau yn y system rheoli uniondeb a chyflwynwyd Hysbysiad Gwella er mwyn sicrhau bod y ffwrnais yn parhau i allu gweithredu wrth i'r gwaith o fynd i'r afael â'r risgiau parhaus fynd rhagddo gyda dau saib byr i wneud gwaith atgyweirio strwythurol.

Ymchwiliadau a Sicrhau Cyfiawnder

29. Mae gan HSE dîm bach o Arolygwyr a staff Cymorth sy'n gweithio gyda Heddlu Gwent, ac wedi'u lleoli gyda hwy, ar ymchwiliad mawr a chymhleth ar y cyd (Ymgyrch Jasmine). Mae HSE wedi bod yn rhan o hyn ers bron tair blynedd ond mae'r cam ymchwilio bron â dod i ben.

30. Mae Cofiadur Caerdydd wedi sôn yn feirniadol wrth yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a HSE am oedi wrth gyflwyno achosion i'r Llys yn ymwneud â marwolaethau yn gysylltiedig â gwaith gan wneud argymhellion ynghylch sut y gallai penderfyniadau erlyn gael eu dwyn ynghyd yn well gan Wasanaeth Erlyn y Goron a HSE. Mae'r sylwadau hyn cael eu hystyried yn genedlaethol yn ogystal ag mewn ymchwiliadau lleol fel yr un y soniwyd amdano gyda Heddlu Gwent uchod, a chyda Gwasanaeth Erlyn y Goron.

31. Mae erlyniadau nodedig diweddar yng Nghymru wedi cynnwys y canlynol:

- Cafodd gyrrwr HGV, a oedd yn agor drysau cefn ei ôl-gerbyd, ei ladd gan fwrn metel a syrthiodd oddi ar domen metel sgrap mewn iard ailgylchu. Cyhuddwyd gyrrwr craen yn yr iard o ddynladdiad ond ni chafwyd ef yn euog. Plediodd gweithredwr yr iard (Sims Metal Group UK) yn euog o dan a 3(1) o'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a chafodd ddirwy o £200,000 gyda chostau o £57,500.

- Gweithiodd HSE gyda'r Heddlu i gael gosodwr nwy yn euog o ddynladdiad (dau gyfrif) ac a3 o'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (chwe chyfrif). Fe'i dedfrydwyd i 3 blynedd o garchar.

- Cafwyd gosodwr nwy anghofrestredig yn euog o beidio â chydymffurfio â Hysbysiad Gwahardd (o beidio â gwneud gwaith nwy) a dau gyhuddiad o ran Rheoleiddiad (Gosod a Defnyddio) Diogelwch Nwy. Fe'i dedfrydwyd i 6 mis o garchar am dorri'r Hysbysiad Gwahardd.

- Cafwyd cwmni trin dŵr yn Berkshire yn euog o gynnal arolygon annigonol o risgiau legionella mewn cartrefi nyrsio ym Mlaenau Gwent a Phowys. Cafodd ddirwy o £24,000 gyda chostau o £17,276.

Yr angen am Arweinyddiaeth Gref

32. Mae ad-drefnu GIG Cymru wedi cynnig cyfle unigryw i drafod trefniadau llywodraethu ar gyfer Iechyd a Diogelwch gyda GIG Cymru, a datblygu trefniadau adrodd lle y gall GIG Cymru ddarparu arweinyddiaeth a rhoi cyfrif am berfformiad Iechyd a Diogelwch. Mae'r gwaith hwn yn parhau yn ogystal ag ymyriadau strategol gyda'r holl Fyrddau ar lefel uwch i ddatblygu cynllun ymyrryd yn seiliedig ar risg yn y tymor hwy ar gyfer pob sefydliad newydd. Bwriedir cynnal digwyddiad wedi ei anelu at aelodau'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Bwrdd Iechyd, a bydd yn defnyddio materion cyfredol am reoli ystadau, gan gynnwys asbestos, i adolygu arweinyddiaeth, cyfranogiad gweithwyr a dangosyddion perfformiad o fewn eu trefniadau iechyd a diogelwch.

33. Mae dull tebyg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer awdurdodau lleol fel cyflogwyr mawr a chomisiynwyr gwaith a gwasanaethau ac mae pob awdurdod yn cytuno ar gynlluniau ymyrryd. Mae CLILC yn cefnogi'r dull hwn ac rydym yn cydweithio i sicrhau cysondeb.

Cynnwys y gweithlu

34. Cefnogodd HSE Gynhadledd gyntaf Cymru Gyfan ar gyfer Cynrychiolwyr Diogelwch a drefnwyd gan TUC Cymru. Daeth nifer dda ynghyd a dyma'r sail ar gyfer rhwydwaith y cynrychiolwyr i rannu materion ac arfer gorau.

35. Mae HSE hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gysylltiedig â gweithwyr mudol drwy'r Fforwm Pobl Fudol dan arweinyddiaeth Gweinidogion.

Datblygu Cymhwysedd

36. Bu dirywiad mewn cymwysterau a sgiliau mwyngloddio dros y degawd diwethaf wrth i'r rhai â phrofiad ymarferol adael gweithlu Cymru ers i'r prif byllau glo gau, a hefyd wrth i'r cyrsiau coleg a phrifysgol traddodiadol ddod i ben. Cydnabyddir hyn gan y cwmnïau mwyngloddio (brig a thanddaear), darpar brynwyr lleol glo Cymru, sefydliadau addysg a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae cynghrair o ddarparwyr sgiliau a chymhwysedd yn ogystal â phrentisiaethau mwyngloddio yn cael eu datblygu, ac mae Arolygiaeth Mwynfeydd HSE yn cyfrannu at y prosesau i sicrhau bod y sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol i reoli a chynnal diogelwch mewn mwynfeydd ar gael os bydd y Diwydiant yn penderfynu ailddatblygu yn Ne Cymru.

Teilwra cymorth i BBaChau

37. Mae Cymru Iach ar Waith wedi datblygu o Workplace Connect a mentrau cysylltiedig yng Nghymru i ddarparu gwybodaeth, cymorth a chyngor i fusnesau yng Nghymru. Ariennir hyn yn llwyr bellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ond cefnogwyd ei ddatblygiad gan HSE yng Nghymru. Er enghraifft, mae staff HSE a ymddeolodd yn ddiweddar wedi bod yn rhoi hyfforddiant i gynghorwyr newydd. Mae'r gwasanaeth yn darparu cyngor a chymorth amrywiol drwy linellau ffôn ac ymweliadau safle i ymgysylltu â

busnesau, yn ogystal ag ystod o fentrau gwella iechyd fel Dim Smygu Cymru a Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Rhoddir y cyfle i weithwyr proffesiynol ym maes iechyd gael gafael ar wybodaeth er mwyn eu helpu i gefnogi eu cleifion yn well gyda materion iechyd yn y gwaith. Ceir ymrwymiad pellach i ddatblygu cymorth a ddarperir i fusnesau drwy Cymru Iach ar Waith ym mhapur Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Adnewyddu Economaidd: cyfeiriad newydd' (Gorffennaf 2010). Mae HSE Cymru hefyd yn parhau i gefnogi cynllun gwobrwyo Safon Iechyd Gorfforaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd bellach wedi ei addasu a'i ymestyn i wella mynediad o ran busnesau bach.

Mabwysiadu Safbwynt Ehangach

38. Mae gan HSE gydberthynas waith dda â Bwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n newid ei drefniadau llywodraethu ac adrodd. Mae gan HSE, fel cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru bolisi Iaith Gymraeg eisoes ond bydd angen iddo gyflwyno adroddiad blynyddol ar gyflawni'r polisi hwnnw yn ymarferol yn dechrau gyda'r flwyddyn 2010/11. Mae gwefan HSE yn Gymraeg yn un o'r prif elfennau wrth ddiwallu'r anghenion i gyfathrebu â'r cyhoedd yn Gymraeg. Mae'n bwysig bod gwasanaethau a thrafodion eraill HSE (e.e. ymdrin â chwynion) yn parhau i gael eu darparu a'u datblygu yn Gymraeg.

39. Mae Cyfarwyddwr HSE yng Nghymru yn aelod o Fforwm Cymru Gydnerth (a gadeirir gan Brif Weinidog Cymru) ac mae aelodau eraill o staff, yn bennaf o Gyfarwyddiaeth Gosodiadau Peryglus (HID), yn cyfrannu at y Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yn seiliedig ar y 4 Ardal Heddlu yng Nghymru.